4.182

# CAN RHYDDID.

Y PARCH. THOMAS EVANS (Glyn Cothi),
1766—1833.

TON—*Marsellaise.*

O Rhyddid! Pwy mor ffol a'th wrthod
'Nol unwaith deimlo'th nefol dân?
A gaiff creulonder mwy di-orfod
Rwystro'th fuddugoliaeth lân?
O! lleda'th faner dros yr hollfyd!
Llwyr waredigaeth dwg wrth raid,
Yn gadarn aros byth o'n plaid,
Er rhoddi llwyddiant, hedd, a gwynfyd.

CYDGOR.—Hawl dyn—trwy'r byd,
Llwyr deg enillo'r dydd;
Heb fraw—drwy unol fryd,
O'n rhwymau awn yn rhydd.

Ein gwragedd, meibion, merched siriol,
Sy'n gwaeddi,—"Amddiffynnwch ni;
A gwaed ein brodyr, dewrion, gwrol,
Sy'n llefain dial uchel gri,
Ar ein hanrheithwyr llwyr erlidgar,
Sy'n gwasgar llid a rhyfel llawn,
Gan ddifodd pob rhyw ddenol ddawn,
Er peri gofid trwm a galar."

CYDGOR.—Hawl dyn—trwy'r byd,
Llwyr deg enillo'r dydd;
Heb fraw—drwy unol fryd,
O'n rhwymau awn yn rhydd.

X20522 0915